

**CYNGOR SIR Y FFLINT
ADRAN 23 DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984**

**CROESFANNAU Â SIGNALAU I GERDDWYR ARFAETHEDIG AR YR A548 GYDA
STRYD YR EGLWYS A MARKET SQUARE / Y FARCHNAD, Y FFLINT**

RHODDIR RHYBUDD drwy hyn fod Cyngor Sir y Fflint, drwy arfer ei bwerau dan Adran 23 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig:-

- a) Croesfan Twcan i Gerddwyr gyda Signalau yn y lleoliad a nodir yn Atodlen y Rhybudd hwn.

Rheswm dros y Cynnig: Yn dilyn cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru, mae Cyngor Sir y Fflint wedi llwyddo i gael cyllid i weithredu mesurau diogelwch er mwyn mynd i'r afael â thagfeydd a lleihau symudiadau cerbydau diangen a brofir ar hyd y llwybr. Mae mesurau o'r fath yn cynnwys cyfleusterau croesi a gwell darpariaethau cerdded a beicio.

Gellir gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn arfaethedig, y cynlluniau sy'n dangos y ffyrdd yr effeithir arnynt, a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig y Gorchymyn yn ystod oriau agor arferol yng Nghanolfan y Fflint yn Cysylltu, Stryd yr Eglwys, y Fflint, CH6 5BD a Cyngor Sir y Fflint, Depo Alltami, Ffordd yr Wyddgrug, Alltami, Sir y Fflint CH7 6LG yn ystod oriau swyddfa.

Dylid anfon unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig uchod at yr unigolyn isod i'r cyfeiriad isod (gan ddyfynnu cyfeirnod SJ/TRO/NGW) erbyn dydd Gwener 14 Chwefror 2020.

ATODLEN

Gosod Croesfan Twcan Newydd gyda Signalau

A548 gyda Stryd yr Eglwys a Market Square/Y Farchnad, Y Fflint— ar y groesffordd ar yr A548 gyda chyffyrdd Stryd yr Eglwys a Market Square / Y Farchnad.

Dyddiedig 24 Ionawr 2020



Stephen O Jones,
Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NR